TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# RTITB Tryc Codi Gwrthbwyso (Categori B1) - Gweithredwr Newydd



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hyfforddi gweithredwr Tryc Codi Gwrthbwyso (y cyfeirir ato'n aml fel fforch godi) yn rhoi'r sgiliau i chi weithredu'r tryc codi yn ddiogel ac yn effeithlon, cynnal archwiliad cyn-ddefnydd, ac atgofio ac egluro achosion ansefydlogrwydd y tryc codi a'r llwyth.

Yn dilyn cyflawniad llwyddiannus byddwch yn cael trwydded achrededig gan yr RTITB (Road Transport Industry Training Board), sy'n eich galluogi i yrru peiriannau o hyd at 5 tunnell o bwysau.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 oed sy'n byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn.

... unrhyw un sy'n chwilio am yrfa o fewn y sectorau diwydiannol neu logisteg, lle defnyddir tryciau codi yn rheolaidd

... unigolion sydd eisoes â thrwydded cerbyd nwyddau mawr ac sydd am uwchsgilio eu cymhwyster

... gweithredwyr newydd

**Cynnwys y cwrs**

Bydd cwrs hyfforddiant Gweithredwr Newydd yn cael ei gwblhau dros 5 diwrnod.

Drwy gydol y cwrs, byddwch yn mynd i'r afael â'r pynciau canlynol:

Cyfrifoldebau Gweithredwr eraill o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, PUWER 98 a LOLER 98
Cod Diogelwch Gweithredwyr
Ailwefru Wagen Fforch-godi Disel, Nwy neu Wrthbwyso Trydan
Gwiriadau cyn defnyddio
Ffactorau sy'n effeithio ar sefydlogrwydd
Bwrdd rheoli symudedd a hydrolig y Wagen Fforch-godi Gwrthbwyso
Symud y Wagen Fforch-godi mewn ardaloedd agored a chyfyngedig
Stacio ar lefelau gwahanol
Dad-stacio gyda phaledi llawn a gwag
Gweithio oddi mewn ac oddi allan i reseli gyda'r Fforch-godi Gwrthbwyso

Bydd gofyn i chi basio prawf theori ac asesiad gweithredydd ymarferol er mwyn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

**Gofynion Mynediad**

Lefel sylfaenol o sgiliau darllen ac ysgrifennu Saesneg.

Argymhellir esgidiau diogelwch, ond nid yw hyn yn orfodol. Gan fod rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei gwblhau yn yr awyr agored fe'ch cynghorir i wisgo'n briodol ar gyfer y tywydd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bwriad rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad o safon ar yr yrfa i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac wedi eu dysgu.

Cyn i chi gael eich ymrestru ar eich cwrs sydd wedi'i ariannu gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi er mwyn sicrhau bod y dysgu cywir wedi cael ei ystyried.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd perthnasol
profiad blaenorol o fewn y diwydiant neu faes
dyheadau gyrfa yn y dyfodol
ymrwymo i'r amser sydd ei angen

Bydd hyn hefyd yn cynnwys trafodaeth benodol ar y meysydd isod ar gyfer y cwrs hwn:

dyheadau gyrfa er mwyn sicrhau trwydded i wella cyfleoedd gwaith
profiad blaenorol o wagenni fforch-godi
hyfforddiant blaenorol neu dystysgrif a sicrhawyd yn y maes hwn